Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

**INF104W**

**Gwasanaethau Cerbyd**

# Rhifau cofrestru cerbyd a phlatiau rhif



Am ragor o wybodaeth ewch i
**www.gov.uk/displaying-number-plates**

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

4/22

# Cynnwys


## Rhifau cofrestru cerbyd

**01**
Pam bod gennym rifau cofrestru cerbyd....................3

**02**
Hawl i rif cofrestru cerbyd....................3

**03**
Fformat rhif cofrestru cerbyd....................3

**04**
Arddangos rhif cofrestru cerbyd....................4

**05**
Llythrennau dynodi ardal a rhifau dynodi oed DVLA.............5

## Platiau rhif

**06**
Sut i gael plât rhif.....................7

**07**
Manyleb cynllun plât rhif.......................8

**08**
Baneri cenedlaethol ar blatiau rhif...........11

**09**
Platiau rhif gwyrdd....................11

**10**
Beth i'w wneud os yw'ch cerbyd wedi'i glonio......................12

**11**
Rhifau cofrestru a phlatiau rhif ôl gerbyd.....................12


**Cofrestru Personol**
Gwasanaethau ar-lein:

1. **Cymryd rhif cofrestru oddi ar y cerbyd:** www.gov.uk/cymryd-rhif-cofrestru-preifat-oddi-ar-gerbyd
2. **Gosod rhif cofrestru ar gerbyd:** www.gov.uk/rhoi-rhif-cofrestru-preifat-ar-gerbyd

# Rhifau cofrestru cerbyd

## 01 Pam mae gennym rifau cofrestru cerbyd

Mae rhifau cofrestru cerbyd yn ffordd o adnabod cerbydau ac yn berchen i'r Ysgrifennydd Gwladol. Maent yn cael eu clustnodi i gerbydau fel rhan o'r broses cofrestru a thrwyddedu cerbydau.

Mae'r rhif cofrestru yn cael ei roi i gerbyd, nid y ceidwad cofrestredig. Bydd yn aros ar y cerbyd (nes y caiff y cerbyd ei dorri'n ddarnau, ei ddinistrio neu ei allforio o'r wlad yn barhaol) oni bai bod ceidwad cofrestredig y cerbyd yn gwneud cais i'w gymryd oddi-ar y cerbyd a'i roi ar gerbyd arall neu ar dystysgrif gadw (V778W).

## 02 Hawl i rif cofrestru cerbyd


Pan rydych yn prynu rhif cofrestru personol (preifat), rydych yn prynu'r hawl i wneud cais i'w roi ar gerbyd sydd wedi'i gofrestru yn eich enw chi neu enw rhywun arall (yr enwebai). Pan rydych yn gwerthu cerbyd, bydd y rhif cofrestru yn aros gyda'r cerbyd oni bai eich bod yn gwneud cais i'w gymryd oddi-ar y cerbyd a'i roi ar gerbyd arall neu ar dystysgrif gadw (V778W). Am ragor o wybodaeth ewch i **www.gov.uk/personalised-vehicle-registration-numbers**

## 03 Fformat rhif cofrestru cerbyd

Cyflwynwyd y fformat cofrestru cyfredol ar gyfer rhifau cofrestru cerbydau ar 1 Medi 2001. Mae'n cynnwys:

- 2 lythyren tag cof (mae'r rhain yn dynodi ardal yn y wlad ble y mae cerbyd yn cael ei gofrestru yn gyntaf)
- 2 rif (mae rhain yn dweud wrthych pryd y cyhoeddwyd)
- bwlch a 3 llythyren sy'n cael eu dewis ar hap

Dangosir rhestr o lythrennau dynodi ardal DVLA a rhifau dynodi oedran ar dudalennau 5 a 6.



## 04 Arddangos rhifau cofrestru cerbyd

**Mae'n rhaid arddangos rhif cofrestru cerbyd yn gywir ar blât rhif yn unol â Rheoliadau Cerbydau'r Ffordd (Arddangos Rhifau Cofrestru) (fel sy'n briodol). Mae'r rheoliadau hyn yn rheoli sut mae platiau rhif cofrestru cerbyd yn cael eu dylunio, eu cynhyrchu a'u harddangos.**

Ni allwch ail-drefnu neu gam-gynrychioli'r rhifau a llythrennau ar blât rhif i greu enwau na geiriau, fel eu bod yn anodd i'w darllen. Er enghraifft, gosod bolltau i newid unrhyw lythyren neu rif. Mae'n bosibl y gallwch gael dirwy i fyny at £1,000 os ydych yn gyrru gyda phlatiau rhif sydd ddim yn arddangos y rhif cofrestru yn gywir a bydd eich car yn methu ei brawf MOT. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd y rhif cofrestru yn cael ei dynnu'n ôl yn barhaol.

Os ydych wedi cam-gynrychioli rhif cofrestru cerbyd ni fyddwch yn cael unrhyw arian yn ôl rydych chi wedi'i dalu am y rhif cofrestru, nac unrhyw gostau eraill y mae'n rhaid i chi dalu.

Ni allwch ddefnyddio rhif cofrestru cerbyd i wneud i'ch cerbyd ymddangos yn ifancach nag ydyw mewn gwirionedd.

# 05 Llythrennau dynodi ardal DVLA a rhifau dynodi oed

| Llythyren | | Ardal bost | Llythrennau dynodi ardal DVLA |
|---|---|---|---|
| A | **Anglia** | Peterborough<br>Norwich<br>Ipswich | AA AB AC AD AE AF AG AH AJ AK AL AM<br>AN AO AP AR AS AT AU<br>AV AW AX AY |
| B | **Birmingham** | Birmingham | BA – BY |
| C | **Cymru** | Caerdydd<br><br>Abertawe<br>Bangor | CA CB CC CD CE CF CG CH CJ CK<br>CL CM CN CO<br>CP CR CS CT CU CV<br>CW CX CY |
| D | **Glannau Dyfrdwy i Amwythig** | Caer<br>Amwythig | DA DB DC DD DE DF DG DH DJ DK<br>DL DM DN DO DP DR DS DT DU DV<br>DW DX DY |
| E | **Essex** | Chelmsford | EA – EY |
| F | **Forest & Fens** | Nottingham<br><br>Lincoln | FA FB FC FD FE FF FG FH FJ FK FL<br>FM FN FP<br>FR FS FT FV FW FX FY |
| G | **Gardd Lloegr** | Maidstone<br><br>Brighton | GA GB GC GD GE GF GG GH GJ GK<br>GL GM GN GO<br>GP GR GS GT GU GV GW GX GY |
| H | **Hampshire a Dorset** | Bournemouth<br>Portsmouth | HA HB HC HD HE HF HG HH HJ<br>HK HL HM HN HO HP HR HS HT HU<br>HV HW HX HY<br>(Defnyddir HW ar gyfer trigolion Ynys Wyth yn unig) |
| K | | Borehamwood<br>Northampton | KA KB KC KD KE KF KG KH KJ KK KL<br>KM KN KO KP KR KS KT KU KV KW<br>KX KY |
| L | **Llundain** | Wimbledon<br>Borehamwood<br>Sidcup | LA LB LC LD LE LF LG LH LJ<br>LK LL LM LN LO LP LR LS LT<br>LU LV LW LX LY |
| M | **Manceinion a Glannau Mersi** | Manceinion | MA – MY<br>(MN + MAN Ar gadw i'r ynys wyth) |
| N | **Gogledd** | Newcastle<br><br>Stockton | NA NB NC ND NE NG NH NJ NK NL<br>NM NN NO<br>NP NR NS NT NU NV NW NX NY |
| O | **Rhydychen** | Rhydychen | OA – OY |
| P | **Preston** | Preston<br><br>Caerliwelydd | PA PB PC PD PE PF PG PH PJ PK PL<br>PM PN PO PP PR PS PT<br>PU PV PW PX PY |
| R | **Reading** | Theale | RA – RY |
| S | **Yr Alban** | Glasgow<br>Caeredin<br>Dundee<br>Aberdeen<br>Inverness | SA SB SC SD SE SF SG SH SJ<br>SK SL SM SN SO<br>SP SR SS ST<br>SU SV SW<br>SX SY |
| V | **Dyffryn Hafren** | Caerwrangon | VA – VY |
| W | **Gorllewin Lloegr** | Caerwysg<br>Truro<br>Bryste | WA WB WC WD WE WF WG WH WJ<br>WK WL<br>WM WN WO WP WR WS WT WU WV<br>WW WX WY |
| Y | **Swydd Efrog** | Leeds<br>Sheffield<br>Beverley | YA YB YC YD YE YF YG YH YJ YK<br>YL YM YN YO YP YR YS YT YU<br>YV YW YX YY |

- Ni fyddwn yn defnyddio I, Q na Z yn llythrennau dynodi ardal lleol
- Byddwn yn dal i gyhoeddi rhifau 'Q' sy'n bodoli
- Byddwn dim ond yn defnyddio Z fel llythyren ar hap

## Rhifau dynodi oed

| Dyddiad | Dynodi oed | Dyddiad | Dynodi oed |
|---|---|---|---|
| | | Medi 2001 – Chwefror 2002 | **51** |
| Mawrth 2002 – Awst 2002 | **02** | Medi 2002 – Chwefror 2003 | **52** |
| Mawrth 2003 – Awst 2003 | **03** | Medi 2003 – Chwefror 2004 | **53** |
| Mawrth 2004 – Awst 2004 | **04** | Medi 2004 – Chwefror 2005 | **54** |
| Mawrth 2005 – Awst 2005 | **05** | Medi 2005 – Chwefror 2006 | **55** |
| Mawrth 2006 – Awst 2006 | **06** | Medi 2006 – Chwefror 2007 | **56** |
| Mawrth 2007 – Awst 2007 | **07** | Medi 2007 – Chwefror 2008 | **57** |
| Mawrth 2008 – Awst 2008 | **08** | Medi 2008 – Chwefror 2009 | **58** |
| Mawrth 2009 – Awst 2009 | **09** | Medi 2009 – Chwefror 2010 | **59** |
| Mawrth 2010 – Awst 2010 | **10** | Medi 2010 – Chwefror 2011 | **60** |
| Mawrth 2011 – Awst 2011 | **11** | Medi 2011 – Chwefror 2012 | **61** |
| Mawrth 2012 – Awst 2012 | **12** | Medi 2012 – Chwefror 2013 | **62** |
| Mawrth 2013 – Awst 2013 | **13** | Medi 2013 – Chwefror 2014 | **63** |
| Mawrth 2014 – Awst 2014 | **14** | Medi 2014 – Chwefror 2015 | **64** |
| Mawrth 2015 – Awst 2015 | **15** | Medi 2015 – Chwefror 2016 | **65** |
| Mawrth 2016 – Awst 2016 | **16** | Medi 2016 – Chwefror 2017 | **66** |
| Mawrth 2017 – Awst 2017 | **17** | Medi 2017 – Chwefror 2018 | **67** |
| Mawrth 2018 – Awst 2018 | **18** | Medi 2018 – Chwefror 2019 | **68** |
| Mawrth 2019 – Awst 2019 | **19** | Medi 2019 – Chwefror 2020 | **69** |
| Mawrth 2020 – Awst 2020 | **20** | Medi 2020 – Chwefror 2021 | **70** |
| Mawrth 2021 – Awst 2021 | **21** | Medi 2021 – Chwefror 2022 | **71** |
| Mawrth 2022 – Awst 2022 | **22** | Medi 2022 – Chwefror 2023 | **72** |
| Mawrth 2023 – Awst 2023 | **23** | Medi 2023 – Chwefror 2024 | **73** |
| Mawrth 2024 – Awst 2024 | **24** | Medi 2024 – Chwefror 2025 | **74** |
| Mawrth 2025 – Awst 2025 | **25** | Medi 2025 – Chwefror 2026 | **75** |
| Mawrth 2026 – Awst 2026 | **26** | Medi 2026 – Chwefror 2027 | **76** |
| Mawrth 2027 – Awst 2027 | **27** | Medi 2027 – Chwefror 2028 | **77** |
| Mawrth 2028 – Awst 2028 | **28** | Medi 2028 – Chwefror 2029 | **78** |
| Mawrth 2029 – Awst 2029 | **29** | Medi 2029 – Chwefror 2030 | **79** |

Bydd y patrwm hwn yn parhau nes y caiff yr amrywiaethau hyn eu defnyddio i gyd.

# Platiau rhif

## 06 Sut i gael platiau rhif wedi’u cynhyrchu

Gallwch dim ond cael plât rhif wedi’i gynhyrchu gan gyflenwr plât rhif cofrestredig (RNPS). Mae manylion eich RNPS agosaf ar gael yn **www.gov.uk/displaying-number-plates**

Bydd angen i’r cyflenwr weld dogfennau gwreiddiol sy’n:

- profi eich enw a chyfeiriad
- dangos bod gennych ganiatâd i ddefnyddio’r rhif cofrestru

### Dogfennau adnabod

Gallwch ddefnyddio’r canlynol i gadarnhau eich enw a chyfeiriad:

- trwydded yrru
- bil gwasanaeth, Treth Cyngor neu ar-drethu o’r 6 mis diwethaf
- cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu o’r 6 mis diwethaf
- cerdyn adnabod cenedlaethol

Bydd y canlynol yn cadarnhau eich enw yn unig:

- pasbort – nid oes rhaid iddo fod wedi’i ei gyhoeddi yn y DU
- cerdyn debyd neu gredyd banc neu gymdeithas adeiladu
- cerdyn gwarant yr heddlu
- cerdyn adnabod y lluoedd arfog

### Profi eich bod yn gallu defnyddio’r rhif cofrestru

Mae’n rhaid i chi ddod ag un o’r canlynol i ddangos bod gennych ganiatâd i arddangos y rhif cofrestru:

- V5CW (llyfr log) – os yw’ch V5CW wedi ei cholli, ei dwyn, ei difrodi neu ei dinistrio gallwch wneud cais am un ddyblyg yn **www.gov.uk/llyfr-log-cerbyd**
- slip ceidwad newydd (slip gwyrdd)
- tystysgrif hawl (V750W) i’r rhif
- dogfen gadw (V778W)
- nodyn atgoffa am dreth cerbyd neu HOS (V11W)
- tystysgrif gofrestru dros dro (V379)
- tystysgrif awdurdodi plât rhif (V948) gyda stamp swyddogol yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) neu Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA)
- tystysgrif awdurdodi rhif plât electronig (eV948)
- llythyr awdurdodi gan reolwr fflyd (yn cynnwys cwmni prydlesu neu logi) gan ddyfynnu cyfeirnod y ddogfen o’r dystysgrif cofrestru
- os yw’ch fflyd yn y cynllun V5CW ar alw newydd (a elwir hefyd yn ‘atal V5CW’), PDF o fanylion y cerbyd o’r gwasanaeth gweld cofnod cerbyd (www.gov.uk/dvla-fleet-vehicle-info)

## Safon Brydeinig ar gyfer platiau rhif

Mae'r Safon Brydeinig yn nodi nodweddion y plât rhif. Mae hyn yn cynnwys gweledEdd, cryfder ac adlewyrchiad. I fodloni'r Safon Brydeinig, mae'n rhaid i bob plât rhif gael ei farcio'n barhaol ac yn glir gyda'r wybodaeth ganlynol:

- rhif y Safon Brydeinig BS AU 145d am blatiau rhif newydd neu amnewid a osodir ar gerbydau o 1 Medi 2021 neu BS AU 145d am blatiau rhif a osodir ar gerbydau cyn y dyddiad hwn
- enw, nod masnach neu unrhyw ddull arall o adnabod gwneuthurwr neu gyflenwr
- enw a chod post y siop a'i gyflenwodd

## Os caiff platiau rhif eich cerbyd eu dwyn

Cysylltwch â'r heddlu er mwyn iddynt geisio chwilio am y troseddwr a'i erlyn er mwyn atal unrhyw weithgaredd anghyfreithlon.

# 07 Manyleb cynllun plât rhif

Mae'n rhaid i gerbydau a gynhyrchwyd ar ôl 1 Ionawr 1973 arddangos platiau rhif sydd â'r canlynol:

- deunydd adlewyrchol
- cefndir gwyn ar flaen y cerbyd a chefndir melyn ar gefn y cerbyd
- llythrennau a rhifau du




## Y ffont safonol

Ar 1 Medi 2001, cyflwynwyd rheoliadau ar gyfer ffont safonol (arddull y llythrennau) i blatiau rhif, i'w gwneud yn haws eu darllen. Gyda'r newid hwn, terfynwyd yr arferiad o ddefnyddio llythrennau a rhifau italig, a llythrennau a rhifau eraill anodd eu darllen ar blatiau rhif.

Isod, dangosir enghraifft o’r ffont safonol:

123456789
ABCDEFGH
JKLMNOPQ
RSTUVWXYZ

Ar gyfer cerbydau sydd â phlatiau rhif newydd neu blatiau amnewid ac a’u gosodwyd o 1 Medi 2001 ymlaen, ni chaniateir platiau rhif 3 llinell mwyach (ac eithrio mewn achosion lle cofrestrwyd y cerbyd am y tro cyntaf cyn 1 Ionawr 1973) neu os yw cerbyd wedi ei adeiladu cyn 1 Ionawr 1980 ac wedi’i gofrestru yn y dosbarth treth hanesyddol ac wedi ei eithrio rhag talu treth cerbyd. Mae’n rhaid i’r nodau ar blât rhif bod yn faint ac uchder penodol:

- rhaid i uchder y nod bod 79mm
- rhaid i led y nod (heblaw rhif 1 neu’r llythyren I) bod 50mm
- rhaid i faint strôc y nod (trwch y print du) bod 14mm
- rhaid i’r blwch rhwng y nodau bod 11mm
- rhaid i’r blwch rhwng y rhifau dynodi oedran a llythrennau ar hap bod 33m
- rhaid i faint yr ymylon brig, gwaelod ac ochr y plât bod 11mm
- rhaid i’r blwch fertigol rhwng y rhifau dynodi oedran a llythrennau ar hap bod 19mm

## Beiciau modur a beiciau tair olwyn

Mae’n rhaid i feiciau modur a gofrestrwyd ar neu ar ôl 1 Medi 2001 arddangos plât rhif ar gefn y cerbyd yn unig.

Os ydych yn reidio beic modur neu feic tair olwyn a gofrestrwyd cyn 1 Medi 2001, gallwch hefyd arddangos plât rhif ar y blaen, ond nid oes rhaid i chi. Mae’n rhaid bod rhifau plât beiciau modur a beiciau modur tair olwyn (a gofrestrwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 1973) cael eu gosod ar 2 linell.

Gall beiciau tair olwyn sy'n deillio o gerbydau pedair olwyn, megis ceir salŵn arddangos naill ai'r gofynion arferol ar dudalen 9 neu'r gofynion beiciau modur fel y'u dangosir isod.

Mae'n rhaid i feiciau tair olwyn a adeiladwyd o feiciau modur fodloni'r gofynion ar gyfer beiciau modur fel y dangosir isod.

Mae rhaid i gerbydau cwad (gan gynnwys beiciau cwad) sy'n cael eu gyrru ar y ffordd arddangos platiau rhif ar flaen a chefn y cerbyd. Cyn belled bod ganddynt uchafswm pŵer net yr injan o 15 cilowat neu lai a phwysau heb lwytho o dim mwy na 400 cilogram (neu 550 cilogram os ydyw'n gerbyd nwyddau), gallant hefyd arddangos platiau rhif sy'n bodloni'r gofynion a ddangosir isod. Ym mhob achos arall, mae'n rhaid bodloni'r gofynion ar dudalen 9:

- rhaid i uchder y nodau bod 64mm
- rhaid i led y nodau (heblaw rhif 1 neu'r llythyren I) bod 44mm
- rhaid i faint strôc y nod (trwch y print du) bod 10mm
- rhaid i'r blwch rhwng y nodau bod 10mm
- rhaid i'r blwch rhwng y rhifau dynodi oedran a llythrennau ar hap bod yn 30mm
- rhaid i faint yr ymylon brig, gwaelod ac ochr y plât bod o leiaf 11mm
- rhaid i'r blwch fertigol rhwng y rhifau dynodi oedran a llythrennau ar hap bod 13mm

## Platiau rhif a osodwyd cyn 1 Medi 2001

Rhaid i blatiau rhif a osodwyd cyn 1 Medi 2001 arddangos llythrennau a rhifau o'r meintiau a dangosir isod.

| | **Grŵp 1** platiau rhif a osodwyd cyn 1 Medi 2001 | **Grŵp 2** platiau rhif traddodiadol ar gyfer cerbydau a gynhyrchwyd cyn 1 Ionawr 1973 |
|---|---|---|
| Uchder nod | 89mm | 79mm |
| Lled nod (heblaw rhif 1 neu'r llythyren I) | 64mm | 57mm |
| Maint strôc y nod | 16mm | 14mm |
| Bwlch rhwng y nodau | 13mm | 11mm |
| Bwlch rhwng rhifau dynodi oedran a llythrennau ar hap | 38mm | 33mm |
| Ymylon ochr (o leiaf) | 13mm | 11mm |
| Ymylon top a gwaelod (o leiaf) | 13mm | 11mm |
| Bwlch fertigol rhwng rhifau dynodi oedran a llythrennau ar hap | 19mm | 19mm |

### Platiau rhif traddodiadol ar gyfer cerbydau a gynhyrchwyd cyn 1 Ionawr 1973

Caiff cerbydau a gynhyrchwyd cyn 1 Ionawr 1973 arddangos platiau rhif traddodiadol 'du a gwyn', (er enghraifft, nodau gwyn, arian neu lwyd ar blât du).

O Ebrill 2020, gall cerbydau a gynhyrchwyd cyn 1 Ionawr 1980 hefyd arddangos platiau rhif 'du a gwyn' traddodiadol. Rhaid bod:

- cais wedi'i wneud i DVLA
- wedi ei gofrestru o fewn y dosbarth treth 'cerbydau hanesyddol'

## 08 Baneri cenedlaethol ar blatiau rhif

Gallwch arddangos un o'r baneri canlynol gyda llythrennau dynodi ar ochr chwith y plât rhif:

- baner Jac yr Undeb
- Croes San Siôr
- Croes San Andrew – a enwir hefyd yn Saltire yr Alban
- Draig Goch Cymru

Y llythrennau, neu'r llythrennau dynodi cenedlaethol y gallwch gael yw:

- GREAT BRITAIN, Great Britain neu GB
- UNITED KINGDOM, United Kingdom neu UK
- ENGLAND, England, ENG neu Eng
- SCOTLAND, Scotland, SCO neu Sco
- CYMRU, Cymru, CYM neu Cym
- WALES neu Wales

Ni allwch gael y faner neu'r llythrennau ar ffin y plât rhif ac ni all fod yn fwy na 50 milimedr mewn lled. Nid oes angen i gerbydau sydd â llythrennau 'UK' a Baner yr Undeb ar eu plât rhif arddangos sticer y DU gwahanol wrth deithio yn yr UE oni bai eu bod yn teithio i Sbaen, Malta neu Cyprus.

## 09 Platiau rhif gwyrdd

O 8 Rhagfyr 2020 caiff cerbydau allyriadau sero (ZEVs) cymwys arddangos fflach wyrdd ar ochr chwith y plât rhif. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am hwn yn **www.gov.uk/government/consultations/introduction-of-green-number-plates-for-ultra-low-emission-vehicles**

## 10 Beth i'w wneud os yw'ch cerbyd wedi'i glonio

Os ydych yn derbyn dirwyon neu daliadau nad ydych yn gyfrifol amdanynt oherwydd bod rhywun arall yn defnyddio rhif cofrestru eich cerbyd, mae'n bosibl bod eich cerbyd wedi'i glonio.

Mae clonio'n golygu copïo manylion cerbyd tebyg (heb ei ddwyn) sydd eisoes ar y ffordd. Mae troseddwyr yn dod o hyd i union gopi o'r gwneuthuriad, model a lliw'r car maent wedi'i ddwyn ac yn defnyddio'r un rhif cofrestru ar y cerbyd sydd wedi ei ddwyn i'w wneud i edrych yn gyfreithlon.

Os ydych chi'n amau bod eich cerbyd wedi'i glonio:

- cysylltwch â'r heddlu er mwyn iddynt allu olrhain ac erlyn y troseddwr i atal y gweithgaredd anghyfreithlon hwn rhag parhau
- dychwelwch unrhyw ddirwyon neu lythyrau i bwy bynnag a'u cyhoeddwyd i chi, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth sydd gennych i brofi'ch achos
- ysgrifennwch atom yn DVLA, Abertawe, SA99 1ZZ, gan ddyfynnu cyfeirnod y drosedd roedd yr heddlu wedi'i rhoi i chi – byddwn yn cofnodi'ch gohebiaeth er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol

## 11 Rhifau cofrestru a phlatiau rhif ôl-gerbydau

Mae'n rhaid i ôl-gerbydau penodol gael eu cofrestru gyda DVLA. Bydd yr ôl-gerbydau hyn yn cael eu clustnodi gyda rhif cofrestru a bydd angen arddangos plât rhif.

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar rifau cofrestru a phlatiau rhif ôl-gerbyd yn nhaflen INF291W sydd ar gael yn **www.gov.uk/government/publications/trailer-registration-numbers-and-number-plates-inf291.cy**

*Prynu cerbyd?*

*Nid yw'r dreth yn drosglwyddadwy mwyach felly rhaid i chi ei drethu cyn i chi ei ddefnyddio.*

**www.gov.uk/vehicletaxrules**

## Gwasanaethau Cerbyd

### Rhifau cofrestru cerbyd a phlatiau rhif

DVLA
Longview Road
Treforys
Abertawe
SA6 7JL

**www.gov.uk/dvla**